Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Maesybryn
# Lancaster Drive
# Ystad Crownhill
# Llanilltud Faerdref
# Pontypridd
# CF38 2NS

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Maesybryn yn ysgol gynradd gymunedol fawr yn Llanilltud Faerdref, sef pentref mawr rhwng Llantrisant a Phontypridd, yn Rhondda Cynon Taf.

Mae 394 o ddisgyblion tair i 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 53 sy'n mynychu'r feithrinfa. Mae 15 o ddosbarthiadau yn yr ysgol, ac mae tua hanner y rhain yn ddosbarthiadau oedran cymysg. Mae dau ddosbarth meithrin yn yr ysgol. Hefyd, mae dau ddosbarth cymorth i ddisgyblion sy'n dod o ardaloedd ar draws yr awdurdod lleol: un ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen sydd ag anhwylderau cyfathrebu a'r llall ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 sydd ag anghenion cymhleth.

Daw disgyblion o ardaloedd nad oes ganddynt fantais nac anfantais economaidd. Mae hawl gan ryw 9% o ddisgyblion i gael prydau ysgol am ddim, sydd lawer yn is na chyfartaledd Cymru (21%).

Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 17% o'i disgyblion. Mae hyn ymhell islaw cyfartaledd Cymru (22%). Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

Yn 2007 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Penodwyd y pennaeth yn 2009 a'r dirprwy bennaeth yn 2008.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Maesybryn yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,083 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Rhondda Cynon Taf yw £6,197 a'r lleiafswm yw £2,561. Mae Ysgol Gynradd Maesybryn yn yr 85fed safle o'r 113 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Gynradd Maesybryn yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- mae bron yr holl ddisgyblion yn siaradwyr hyderus ac yn ddysgwyr brwdfrydig, ac maent yn mwynhau bywyd ysgol;
- mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ran lles;
- mae ymddygiad yn dda iawn;
- mae ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda;
- ceir perthnasoedd da iawn rhwng staff a disgyblion; ac
- mae safon uchel iawn i'r amgylchedd dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda yn Ysgol Gynradd Maesybryn oherwydd:

- mae gan y pennaeth, yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu, a synnwyr o gyfeiriad, ar gyfer yr ysgol;
- mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn nodi meysydd i'w datblygu yn gywir;
- mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol;
- defnyddir data yn effeithiol i nodi meysydd i'w gwella yn nysgu'r disgyblion; ac
- mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithlon.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn ysgrifennu ar y lefelau uwch na'r disgwyl ar draws yr ysgol

A2 Gwella safonau mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2

A3 Gwella'r cysondeb mewn safonau cyflwyniad a llawysgrifen yng nghyfnod allweddol 2

A4 Codi lefel yr her a'r disgwyliad i ddisgyblion mwy galluog

A5 Sicrhau cysondeb mewn arferion asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiad gwaelodlin o ddisgyblion wrth iddynt ddod i mewn i'r ysgol yn dangos bod gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gyson â'r lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoed.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sy'n briodol i'w hoed ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae bron yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu, yn gwneud cynnydd da iawn mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cydnabyddir eu bod yn ddisgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd da, er nad yw ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn rhugl mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd â staff, ymwelwyr ac â'i gilydd. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau a gweithiant yn dda â'i gilydd yn ystod trafodaethau a thasgau. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn parchu safbwyntiau disgyblion eraill. Maent yn gallu canolbwyntio am gyfnodau amser priodol mewn gwersi.

Mae medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron yr holl ddisgyblion yn darllen yn unol â'u hoedran a'u gallu. Gallant ateb cwestiynau syml yn gywir am y llyfrau y maent yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn uchel yn hyderus a gyda mynegiant. Maent yn gallu dewis testunau addas o amrywiaeth o ffynonellau i wella'u gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu ysgrifennu testunau byr yn annibynnol mewn amrywiaeth o genres. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae geirfa eang gan y rhan fwyaf o ddisgyblion a gallant ysgrifennu darnau estynedig o waith diddorol a llawn dychymyg mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae safonau medrau llawysgrifen a chyflwyno yn llyfrau disgyblion yn anghyson yng nghyfnod allweddol 2.

Mae safonau mewn Cymraeg yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac mae eu hynganiad yn dda. Mae disgyblion yn darllen gyda hyder a dealltwriaeth sy'n datblygu. Ysgrifennant frawddegau syml yn gywir, ac maent yn mwynhau canu caneuon Cymraeg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn siarad, yn darllen na'n ysgrifennu yn hyderus nac yn estynedig yn Gymraeg.

Yn 2012, mae asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn awgrymu bod cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn medrau

iaith, llythrennedd a chyfathrebu a medrau datblygiad personol gerllaw neu ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ond uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae deilliannau disgyblion ar gyfer datblygu medrau datblygiad personol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae cyfran y disgyblion yn cyflawni'r deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6) yn anghyson; mae'r ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu ar gyfer medrau datblygiad personol, ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer medrau mathemategol ac islaw ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

O gymharu ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf o ran dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, ac yn y 50% isaf ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, medrau mathemategol a datblygiad personol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno (y dangosydd pwnc craidd) islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth islaw cyfartaledd y teulu. Mae'r gyfradd sy'n cyflawni'r lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) islaw cyfartaledd y teulu mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

O gymharu ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad disgyblion yn rhoi'r ysgol yn y 50% isaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

**Lles: Da**

Mae lles disgyblion yn un o gryfderau'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i ddysgu ac yn mwynhau bywyd ysgol. Teimlant yn ddiogel ac yn hyderus i fynd at aelod o staff os ydynt yn pryderu. Maent yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi, a bod pobl yn gwrando arnynt. Mae agweddau da at gadw'n heini a bwyta'n iach gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Cefnogant waith yr ysgol drwy hybu bwyta'n iach.

Mae safonau ymddygiad yn uchel iawn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn foesgar, a dangosant ystyriaeth at ei gilydd, yn enwedig disgyblion iau a'r rhai ag anghenion gwahanol. Maent yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n hyderus mewn gwersi. Gweithiant yn dda yn annibynnol a gyda'i gilydd mewn grwpiau neu barau. Mae disgyblion yn ddysgwyr huawdl a hyderus.

Mae aelodau cyngor yr ysgol a'r cyngor eco yn datblygu medrau penderfynu priodol trwy gyfrannu at ddatblygu amgylchedd yr ysgol. Gwnânt awgrymiadau ymarferol i wella offer yr iard chwarae, ac maent yn datblygu medrau ariannol priodol drwy reoli eu cyllideb eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol, ac mae'r gyfradd bresenoldeb gyffredinol ychydig islaw'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg, ond ar ychydig dros 94% mae uwchlaw'r cyfartaledd lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae gwaith cynllunio athrawon yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae cynlluniau gwaith cynhwysfawr gan yr ysgol sy'n sicrhau bod y cwricwlwm yn gytbwys ac yn ennyn diddordeb disgyblion. Cynllunnir amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol gan bob un o'r athrawon. Mae cynllunio ar y cyd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at y broses gynllunio, er nad yw'r broses hon wedi datblygu cystal yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a chyfoethogi yn gwella'r cwricwlwm i bob disgybl.

Mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion yn dda. Fodd bynnag, mae disgwyliadau a lefelau her yn anghyson ar draws yr ysgol. Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm, a chynhwysir hyn yng nghynlluniau athrawon. Mae bron yr holl staff yn datblygu medrau llefaredd, darllen, ysgrifennu, rhifedd, TGCh a medrau meddwl disgyblion yn dda ar draws y cwricwlwm. Mae'r profiadau dysgu a roddir i ddisgyblion yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion o ddosbarthiadau adnoddau dysgu integreiddio i wersi a gweithgareddau prif ffrwd.

Ceir darpariaeth dda yn gyffredinol ar gyfer Cymraeg, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r staff yn defnyddio Cymraeg yn rheolaidd ac yn integreiddio'r iaith yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu. Fodd bynnag, nid yw staff yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig digon o her yn eu cynlluniau i wella hyder disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn estynedig.

Mae'r cwricwlwm yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r Cwricwlwm Cymreig yn effeithiol trwy destunau hanes ac astudio artistiaid a phersonoliaethau Cymreig. Defnyddia'r ysgol arddangosfeydd Cymreig lliwgar i hyrwyddo diwylliant Cymru. Mae bron pob un o'r arddangosfeydd o amgylch yr ysgol yn ddwyieithog. Mae'r ysgol yn tefnu Eisteddfod lwyddiannus ar Ddydd Gŵyl Dewi ac mae disgyblion yn cystadlu'n rheolaidd yn Eisteddfodau'r Urdd.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy, addysg amgylcheddol a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Hyrwyddir dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol gan yr ysgol drwy ei chysylltiadau cadarn ag ysgol yn Uganda a gweithgareddau masnach deg.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda. Mae pob un o'r athrawon yn sicrhau bob bron pob un o'r disgyblion yn cadw diddordeb yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd. Defnyddiant ystod o ddulliau addas i ennyn brwdfrydedd disgyblion. Mae athrawon yn rhannu amcanion gwersi yn dda gyda'u disgyblion. Mae pob un o'r staff yn sicrhau bod ymddygiad yn dda iawn, ac mae hyn yn creu diwylliant ar gyfer dysgu effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio oedolion ychwanegol yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau'n diwallu anghenion yr ystod galluoedd llawn yn eu dosbarthiadau. Mewn ychydig o wersi lle mae'r addysgu

yn llai effeithiol, fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn herio disgyblion yn ddigonol, yn enwedig disgyblion mwy galluog; nid ydynt ychwaith yn creu diwylliant o ddisgwyliadau uchel. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd arafach na'r disgwyl yn ystod y sesiynau hyn.

Mae staff yn defnyddio amrywiaeth dda o adnoddau, gan gynnwys TGCh a'r amgylchedd awyr agored, i wella profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol.

Rhoddir adborth llafar da i ddisgyblion ynglŷn â'u gwaith gan y rhan fwyaf o athrawon, er mai anghyson yw ansawdd sylwadau mewn llyfrau a chyngor ynghylch sut i wella gwaith ysgrifenedig disgyblion. Nid yw'r staff yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu yn gyson ar draws yr ysgol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol systemau safoni cadarn, sy'n sicrhau bod asesiadau'n gywir. Mae pob un o'r athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol gan ddefnyddio cofnodion asesu cynhwysfawr. Mae'r cofnodion hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr am gynnydd disgyblion ym mhob pwnc a phob maes dysgu. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol gan athrawon i lywio'u gwaith cynllunio ac i olrhain perfformiad unigol a pherfformiad grŵp.

Mae adroddiadau'r ysgol i rieni yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth am gynnydd disgyblion, ac yn cynnwys disgrifiadau cywir yn gyffredinol. Teimla bron yr holl rieni eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant drwy'r adroddiadau hyn a thrwy nosweithiau rhieni rheolaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae pob un o'r athrawon yn darparu profiadau dysgu llwyddiannus sy'n hyrwyddo gwerthoedd moesol a chymdeithasol cadarnhaol, fel dyfalbarhad a pharch ymhlith disgyblion. Rhoddir pwyslais cadarn gan yr ysgol ar addysgu disgyblion am werthoedd, ac mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda, a theimla'r disgyblion yn ddiogel a'u bod yn cael gofal da. Drwy ei chwricwlwm a'i gweithgareddau allgyrsiol, mae'r ysgol yn hyrwyddo buddion deiet iach a ffordd iach o fyw yn llwyddiannus.

Mae trefniadau effeithiol ar waith gan yr ysgol i fonitro lefelau presenoldeb ac i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae'n ymgysylltu'n effeithiol ag ystod o asiantaethau allanol priodol i gefnogi anghenion dysgu a datblygiad disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Rhoddir cymorth da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr holl ddosbarthiadau. Mae'r staff yn nodi ac yn monitro anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Cynigir gofal, cymorth ac arweiniad da gan yr ysgol i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anawsterau cyfathrebu ac anghenion mwy cymhleth. Mae'r staff yn gwella medrau cyfathrebu'r disgyblion yn effeithiol. Mae gan yr ysgol gynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol mewn dysgu, ymddygiad a chwarae.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cadarnhaol gan yr ysgol sy'n amlwg yn gwerthfawrogi pob disgybl ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r cynllun cydraddoldeb ac amrywiaeth yn sicrhau bod adeilad yr ysgol a'r cwricwlwm yn gwbl hygyrch. Mae'r ysgol yn cymryd camau cadarnhaol i rwystro aflonyddu a gwahaniaethu. Mae pob un o'r disgyblion yn cael mynediad i ystod lawn darpariaeth yr ysgol.

Mae'r ysgol yn amgylchedd hapus a chynhwysol lle mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Caiff datblygiad personol ac emosiynol ei hyrwyddo'n effeithiol gan yr ysgol. O ganlyniad, mae bron yr holl ddisgyblion yn hyderus, yn parchu ei gilydd ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod digon o lyfrau, cyfrifiaduron ac offer eraill gan ddisgyblion i wneud eu gwaith. Yn gyffredinol, mae'r adeiladau'n addas ar gyfer niferoedd y disgyblion a'r gweithgareddau a gynllunnir. Fodd bynnag, mae lle yn gyfyng mewn rhai ardaloedd o'r ysgol ac mae neuadd yr ysgol yn rhy fach ar gyfer digwyddiadau ysgol gyfan. Mae ansawdd da i'r arddangosfeydd. Maent yn dathlu cyflawniadau'r disgyblion ac yn cynorthwyo'r dysgu yn dda. Mae'r ysgol wedi datblygu ei hamgylchedd dysgu awyr agored yn llwyddiannus. Mae'r ardaloedd garddio, pwll yr ysgol a'r llwybr awyr agored yn fannau deniadol sy'n gwella profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol, ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion. Caiff adeiladau a safle'r ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda, ac maent yn lân ac yn groesawgar.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Cynigir arweinyddiaeth effeithiol gan y pennaeth, ac mae ganddo ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'r uwch dîm rheoli, y staff a'r corff llywodraethol wedi datblygu gweledigaeth ar y cyd yn llwyddiannus. Mae rolau arweinyddiaeth wedi'u diffinio'n glir gan yr ysgol, gyda strwythurau a systemau clir i gefnogi staff. Mae cyfarfodydd rheolaidd yr uwch dîm rheoli, cyfarfodydd staff a phrosesau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer pob aelod o staff yn cyfrannu'n dda at welliannau yn yr addysgu a'r dysgu. Caiff perthynas dda rhwng y staff a hwylustod y gweinyddu o ddydd i ddydd effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd dysgu cyfan.

O dan arweinyddiaeth cadeirydd ac is-gadeirydd effeithiol, mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda. Maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd, er enghraifft, trwy gyfranogi yng nghyfarfodydd cyngor yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn gwybod am berfformiad disgyblion ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn ymwybodol yn gyffredinol o sut mae perfformiad y disgyblion yn cymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd ag ymweliadau â'r ysgol a chyfarfodydd gyda chydlynwyr pwnc, yn eu helpu i ddod yn ffrindiau beirniadol mwy effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae cyflwyno darllen dan arweiniad a rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn wedi cyfrannu at wella safonau.

## Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr a sefydledig ar gyfer hunanarfarnu. Mae'n defnyddio ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol i lunio barnau am ei safonau a'i darpariaeth. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys dadansoddi deilliannau disgyblion yn gywir, arsylwadau rheolaidd o'r staff addysgu, craffu ar waith disgyblion a chasglu barnau llywodraethwyr, rhieni a disgyblion.

Mae canlyniadau'r broses hunanarfarnu gynhwysfawr yn rhoi asesiad cywir i'r ysgol o'i chryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn defnyddio'r meysydd hyn i'w datblygu i bennu blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella'r ysgol. Ceir ystod eang o gamau gweithredu addas yng nghynllun gwella'r ysgol, mae'n nodi'r staff sy'n gyfrifol am eu cyflawni ac mae'n cynnwys graddfeydd amser realistig a meini prawf clir. Mae gweithredu'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu effeithiol. Mae wedi sefydlu nifer o gymunedau dysgu proffesiynol sydd wedi helpu gwella safonau, er enghraifft, gyda'r disgyblion mwy galluog a dawnus. Mae staff yn cydweithredu'n dda ag ysgolion eraill yn eu clwstwr, ac o ganlyniad mae disgyblion yn cael eu hasesu'n fwy cywir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

## Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae cysylltiadau effeithiol gan yr ysgol ag ystod eang o bartneriaid. Caiff y partneriaethau hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda iawn i rieni trwy gylchlythyrau rheolaidd a blog yr ysgol. Mae'r bartneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cefnogi'r disgyblion yn dda. Ceir partneriaethau effeithiol iawn rhwng yr ysgol ac asiantaethau hanfodol eraill yn y gymuned, gan gynnwys grwpiau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a lles. Mae cysylltiadau da yn y gymuned yn cael effaith ar ddarpariaeth yr ysgol yn ogystal â sicrhau diogelwch y disgyblion o amgylch yr ysgol.

Mae arferion cydweithio da iawn gan yr ysgol, gan gynnwys trefniadau trosglwyddo rhwng y cyfnod cyn-ysgol, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig. Mae'r trefniadau hyn yn helpu paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y cyfnod dysgu nesaf. Mae cysylltiadau â'r awdurdod lleol yn gadarn o ran cydgynllunio ar gyfer lles a chynnydd y disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd a dosbarthiadau adnoddau dysgu. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r clwstwr lleol o ysgolion yn effeithiol o ran hyrwyddo dysgu disgyblion.

## Rheoli adnoddau: Da

Mae rheoli adnoddau yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae llywodraethwyr ac uwch arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda ac yn sicrhau bod blaenoriaethau'r ysgol yn derbyn cyllid priodol. Defnyddir staff addysgu a staff cymorth yn effeithiol gan yr ysgol i sicrhau cwmpasu'r cwricwlwm yn dda. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn dda. Caiff adnoddau addysgu eu hadnewyddu a'u diweddaru yn unol â chynlluniau datblygu.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian o ran y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a'i defnydd effeithlon o gyllid.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn y feithrinfa gyda medrau sy’n ddigon tebyg i’r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol. Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da erbyn iddynt adael yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012, llwyddodd y rhan fwyaf o ddisgyblion i gyflawni deilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Fe wnaeth llawer o ddisgyblion gyflawni deilliant 5 mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Roedd deilliannau yn gyffredinol islaw’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion eraill yn yr un teulu. Yn neilliant 6 (y deilliant uwch na’r disgwyl), roedd datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu.

O ran deilliant 5 ac ar y lefel uwch, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae merched yn gwneud gryn dipyn yn well na bechgyn ar y lefel uwch, yn enwedig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

O gymharu â lefelau perfformiad mewn ysgolion tebyg (y rhai â chyfran debyg o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim), roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn y 50% uchaf ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen, ac yn y 50% isaf ar gyfer pob un o’r tri maes dysgu. Roedd perfformiad ar y lefel uwch yn y 50% uchaf ar gyfer dau o’r tri maes dysgu, ac yn y 50% isaf ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi bod islaw cyfartaledd y teulu yn gyffredinol ar gyfer y pum mlynedd diwethaf. Mae perfformiad bechgyn yn well na merched mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Ar y lefel 5 uwch na’r disgwyl, mae perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn yn Saesneg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf, ond roedd islaw cyfartaledd y teulu yn 2012.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, mae perfformiad dros y tair blynedd diwethaf ar y lefel ddisgwyliedig a’r lefel uwch wedi bod yn y 50% isaf yn rheolaidd ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Fe wnaeth 126 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 lenwi'r holiadur i ddysgwyr.

Mae bron pob un o'r disgyblion:

- yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- o'r farn fod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni;
- o'r farn fod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach;
- o'r farn fod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd; ac
- yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion:

- yn gwybod beth i'w wneud a phwy i ofyn iddynt os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- o'r farn fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- yn credu bod unrhyw waith cartref a osodir yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; ac
- o'r farn fod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion:

- o'r farn fod bron yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio; ac
- o'r farn fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

Mae barnau'r disgyblion ychydig yn llai cadarnhaol ar y cyfan na barnau disgyblion mewn ysgolion eraill ar hyd a lled Cymru.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Fe wnaeth 32 o rieni neu ofalwyr lenwi'r holiadur.

Dywed pob un o'r rhieni a gofalwyr:

- fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol;
- bod eu plentyn wedi cael help i ymgartrefu wrth ddechrau'r ysgol;
- bod eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ymgymryd â

chyfrifoldebau; a
- bod eu plentyn yn cael ei annog/hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd.

Dywed bron pob un o'r rhieni neu ofalwyr:

- fod yr addysgu yn dda;
- eu bod yn fodlon yn gyffredinol â'r ysgol;
- bod y staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau/gorau;
- bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau.

Dywed y rhan fwyaf o'r rhieni neu ofalwyr:

- fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn;
- eu bod yn esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol; a'u
- bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Dywed llawer o rieni neu ofalwyr:

- bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol; a
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas â'u hanghenion.

Mae barnau'r rhieni a'r gofalwyr hyn yn well yn gyffredinol neu'n debyg i'r ymatebion o'r holl ysgolion cynradd a arolygwyd yng Nghymru.  At ei gilydd, mynegwyd lefel uchel o foddhad â'r ysgol gan rieni yn Ysgol Gynradd Maesybryn.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Peter Roach | Arolygydd Tîm |
| Colette Gribble | Arolygydd Tîm |
| Deirdre Emberson | Arolygydd Lleyg |
| Kevin Phelps | Arolygydd Cymheiriaid |
| Simon Roberts | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.